Cenn@d

MAWRTH 29 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 109

# Croeso a gwrthwynebiad: Llanilltud Fawr, Rhuthun a Jerwsalem

Mae estyn 'croeso' yn rhywbeth cynhenid a greddfol a wnawn wrth i ni ddod ar draws ymwelwyr, boed ar ein haelwydydd neu yn ein heglwysi. Mae'n siŵr ein bod ni hefyd yn medru dwyn i gof adegau y bu i ninnau dderbyn croeso a derbyniad mewn sefyllfa ddiarth, ac yn ddiolchgar am y croeso hwnnw. Diau fod yna ambell sefyllfa y gallwn gofio amdano lle roeddem yn bryderus ynghylch sut groeso a derbyniad y caem, a hynny wedi bod yn destun gofid a phryder i ni. Weithiau mae rhagfarnau yn gallu creu rhwystrau a thensiynau, ac ar yr adegau hynny gwrthwynebiad yn hytrach na chroeso y profwn, sy'n siom i ni.




### Croeso a gwrthwynebiad yn Llanilltud

Dros y penwythnos cynhaliwyd protest ym Mro Morgannwg gan y mudiad asgell dde eithafol, Patriotic Alliance. Fe drefnodd y grŵp y brotest yn Llanilltud Fawr i wrthwynebu cynlluniau o fewn y dref i gartrefu ffoaduriaid o Wcráin ar safle'r hen ysgol yno. Fe ddaeth tua 20 o gefnogwyr Patriotic Alliance ynghyd, yn dal baneri'n nodi "Nid gwersyll i fudwyr yw Cymru!" a "Mae Prydain yn llawn". Y mae pryder cynyddol am dwf poblogrwydd grwpiau eithafol fel hyn, a'r 'dylanwadwyr' sy'n gweithio'n ddiwyd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwthio eu syniadaeth eithafol ar fywydau ein pobl ifanc. Clywyd llawer am y modd y mae radicaleiddio ffwndamentalaidd Islamaidd wedi arwain pobl o Gymru i'r dwyrain canol i ymuno yn y frwydr derfysgol sy'n peryglu'n byd ar hyn o bryd. Yn yr un modd ceir tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol yn rhannu negeseuon o gasineb tuag at ffoaduriaid, ac yn annog pobl i ymuno yn y frwydr i gau allan pob math o fewnlifiad a ffoaduriaid. Mae gan y dylanwadwr Andrew Tate, sydd mewn carchar yn Rwmania erbyn hyn oherwydd ei syniadau eithafol, dros 5 miliwn o ddilynwyr ledled y byd ac yn gwthio ei syniadau asgell dde ar ein hieuenctid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Fodd bynnag boddwyd lleisiau'r 20 eithafwr gan gannoedd o bobl leol, a oedd am fynegi'n glir nad gwrthwynebiad oedd ganddyn nhw tuag at y ffoaduriaid, ond croeso. Fe ymgasglodd bobl o'r gymuned leol i wrthwynebu protest y Patriotic Alliance ac i gyhoeddi eu bod yn croesawu'r ymwelwyr o Wcráin. Yn ystod y brotest fe gafodd teisennau cri eu dosbarthu, fel arwydd o groeso Cymreig. Yn ôl un o'r trigolion lleol, 'Rydyn fel cenedl yn croesawu pobl. Mae gweld protest fel hyn yn erbyn cartrefu pobl o Wcráin yn wrthun i fi fel Cymro. Dwi wedi clywed bod pobl wedi bod yn trio dylanwadu ar bobl ifanc a phobl eraill ac mae hynny'n annerbyniol. Rydw i yma oherwydd dydw i ddim eisiau ffasgwyr ar ein strydoedd. Fy mlaenoriaeth i yw gwneud i bobl sydd wedi gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw deimlo bod croeso iddyn nhw yma'. Roedd trigolion y dref wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol i ddangos eu gwrthwynebiad i'r brotest adain dde eithafol. Cynhaliwyd gwylnos dros nos yn Eglwys St Illtyd o dan arweiniad offeiriad y plwyf, gyda'r AS lleol Jane Hutt hefyd yn bresennol.

### Croeso tref Rhuthun

Yn ystod y dyddiau diwethaf, cyhoeddwyd rhestr gan y Sunday Times yn nodi'r 30 lle gorau i fyw ym Mhrydain. O ran y trefi brafiaf i fyw yng Nghymru, Rhuthun daeth i'r brig y tro yma ar restr y Times, gan ddisodli tref Y Fenni i'r ail safle a'r Bermo yn drydedd. Tystiolaeth y beirniaid oedd iddynt deimlo croeso cynnes a chymunedol arbennig yn Rhuthun, gydag ymgais wirioneddol i integreiddio'r trigolion trwy nifer o fentrau cymunedol. Llongyfarchiadau mawr i'r dref, a gobeithio bydd hyn yn hwb i'r sawl sy'n gweithio ar rai o'r mentrau cymunedol. Dwn i ddim beth oedd canllawiau'r beirniaid, ond o gofio mai'r Sunday Times oedd yn trefnu, mae'n debyg mai'r pwyslais oedd ar y lle gorau i ddarllenwyr eu papur oedd uchaf ar frig eu rhestr, ac mae'n bosib petai'r Big Issue yn cynnal yr un arolwg, cymunedau eraill o bosib fyddai'n dod i'r brig. Gobeithio ein bod ninnau, pa bynnag rhan o Gymru rydym yn byw ynddi, yn gwneud ein gorau i wneud ein cymunedau'r gorau y medrant fod, a hynny i bob rhan a haen o'n cymdeithas. Ai cymuned lle nad oes angen banc bwyd oherwydd cyfoeth yr ardal honno, neu gymuned lle mae'r galw'n fawr oherwydd natur y gymdeithas ddifreintiedig yw'r gymuned orau i fod yn rhan ohoni? Gyda balchder y cofiwn am gefnogaeth y trefi glofaol tuag at ei gilydd mewn cyfnodau o galedi.

### Croeso a gwrthwynebiad Jerwsalem

Rydym ninnau bellach ar drothwy cyfnod y Pasg, ac yn paratoi ar gyfer Sul y Blodau/Palmwydd. Yno, cofiwn am drigolion Jerwsalem yn llenwi'r strydoedd i groesawu Iesu i'r ddinas. 'Croeso Iesu, hosanna i Fab Dafydd, bendigedig yw'r un syn dod yn enw'r Arglwydd' oedd y gri, ac yntau'n cyrraedd yn ddiymhongar ac yn heddychlon ar gefn asyn. Eto o fewn dyddiau, roedd y croeso wedi troi'n wrthwynebiad a chondemniad. Roedd 'dylanwadwyr' y cyfnod, yr arweinwyr crefyddol a gwleidyddol, yno yn dylanwadu ar drigolion y ddinas, ac o fewn dyddiau 'Croeshoelier ef' oedd eu cri. Wrth i ni baratoi i ddathlu'r Pasg cofiwn i Iesu ddod at bawb yn ddiwahân, gan rannu neges o groeso a derbyniad, ac i herio bob anghyfiawnder, rhagfarn a gwrthwynebiad. Tybed sut fedrwn ni ddangos croeso'r Efengyl yn ein cymunedau ni y Pasg hwn? Wrth i ni droedio trwy'r Wythnos Fawr gadewch i ni ddangos tosturi, cariad a chroeso Iesu yn ein gweithredoedd a'n meddyliau, gan herio bob rhagfarn ac anghyfiawnder.

*Aled Davies*

Dyddiadur Gogledd Ddwyrain India – rhan 3
**Tudalen 2**

*Meistri'r Awen*, gol. D. Ben Rees
**Tudalen 4**

Ffydd a Diwylliant Ffiniau
**Tudalen 7**

# Dyddiadur Gogledd Ddwyrain India – rhan 3



Prifathrawes bresenol Ysgol merched y Synod yn Shillong gyda Nan a'r penddelw o Gwen Evans



Yn yr hen gapel yn Jowai gyda'r Parch B.B.Lamin, Gweinidog yn yr eglwys a llywydd E.B.India



Codi capel newydd yn Jowai




Gyda rhai o'r nyrsio dan Hyfforddiant yn Ysbyty Jowai



Capel newydd yn cael ei adeilad yn Lyngkhot



Noson gydag un o frenhinoedd Casia yng nghwmni Dr.Robert Cunville a'i wraig Caroline

### Profi bendith a holi pam.

Prin yw'r cofebau a godir i ferched yng Nghymru - allaf i ond meddwl am un Ann Griffiths yn Nolannog a'r un diweddar I Betty Campell yng Nghaerdydd. Ond yr oedd y cofadeilau i ferched yn fwy niferus yn Shillong a'r cyffiniau. Caed neuadd yn Ysbyty Gordon Roberts i gofio am nyrs Margaret Buckley a fu'n sefyldu'r ysbyty gyda Dr. Gordon Robert. Fe enwyd ysgol Cymanfa Casi Jaintiau ar ôl eu sefydlydd Miss A.W. Thomas a fu yno am dros 60 mlynedd; enwyd cartref y merched amddifad yn Shillong ar ei hôl hefyd. Yn goron ar y cyfan roedd bust hardd a chofeb wedi ei godi i brifathrawes ysgol merched y Synod, Miss Gwen C. Evans, neu 'Anti Gwen, Llundain', fel y byddai'r rhai a gafodd y fraint o'i hadnabod, yn ei galw.

Er y gydnabyddiaeth o'r gwaith a wnaeth llawer o ferched yma ar Fryniau Casia-Jaintia, ac er mai cymdeithas sy'n etifeddu drwy'r fam yw cymdeithas y Casiaid gyda'r gŵr, ar ôl iddo briodi yn rhwym yn ôl traddodiad, i symud i mewn i gartref ei wraig at ei fam a'i dad yng nghyfraith! (Traddodiad a barheir gan Gristnogion a deiliaid y grefydd gynhenid fel ei gilydd.) Eto, nid oes ordeinio yma ar wragedd i fod yn flaenoriaid nac yn weinidogion mewn eglwysi o unrhyw draddodiad.

Anodd fyddai bod yn dweud dim wrth y synodau y buom yn ymweld â nhw am eu blaenoriaethau a'u strwythurau a hwythau'n profi'r fath fendith, ond yr oedd eu derbyniad a'u gwrandawiad i Nan fel y ferch gyntaf i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol EBC yn un twymgalon a chywir iawn bob tro. Ni ellid ond annog y merched dysgedig ac ymroddgar a welem yno yn yr eglwys i fod yn dal ati i godi eu llais ac i ddyfalbarhau yn eu hymdrech.

Lle braf yn y bryniau a gwastadeddau ffrwythlon i'w gweld ar y ffordd yno yw tref Jowai ym mryniau Jaintia. Yno mae'r Ysbyty cenhadol a elwir yn Ysbyty Dr. Norman Tunnel. Y dydd y bu inni gyrraedd, 'roedd hi'n digwydd bod yn 70 mlynedd i'r dydd y gosodwyd carreg sylfaen yr ysbyty yn 1953. Cafwyd gwasanaeth hwyliog o ddiolchgarwch a the parti a chacen i nodi hynny. Cawsom ninnau gyfle i'w hannog yn eu gwaith a'u gwasanaeth gan gofio am ferch arall fu'n ddylanwadol yn Jowai: Marian Pritchard o Gaer, a'i llyfr 'Y Weledigaeth'. Bu yma'n nyrsio am flynyddoedd ac roedd hi'n rhan o'r weledigaeth fawr yna oedd gan y cenhadon i gyd i weld Teyrnas Dduw yn tyfu ar y bryniau yma a'r weledigaeth sy'n parhau yr un mor fawr heddiw.

Yn Jowai hefyd fe welwyd adeilad yr eglwys newydd yno a fu dan fugeiliaeth Angell Jones am flynyddoedd ac y mae cysylltiad ei fab Gwyn yn parhau yn allweddol yn ein cefnogaeth i ofal iechyd ar y bryniau i gyd. Roedd y capel newydd am ddal rhyw 1500 ac yn mynd i gostio oddeutu 5 Kro Rupee (fel y dywedir yn eu harian), neu £500,000 i'w godi. Rhywbeth yn debyg oedd costau adeilad capel newydd yn Lyngkhot yn Synod y Riboi yn nes at Assam a'r cynnydd yma yn rhannol oherwydd effeithiau'r diwygiad a welwyd yn y bryniau yma i gyd o 2006 ymlaen a'r genhadaeth sydd yn parhau. Yr oedd hi'n hyfryd clywed y dyhead am gael profi diwygiad eto yn eu plith a chael amser o fendith eto fel a gafwyd bryd hynny.

Pentref arall oedd wedi profi bendith tywalltiad o'r Ysbryd Glân oedd pentref Smit. Yno, yn un o'r tai mawr pren traddodiadol yr oedd un o frenhinoedd y Casiaid a'i deulu yn byw. Ef a'i chwaer, y fam frenhines, a ddaliai'r cyfrifoldeb yn eu cartref o gynnal y traddodiadau Casiaidd a chynnig arweiniad i 400 o bentrefi yn yr ardal honno. Nid Cristnogol mohonynt mewn enw, ond Niamh Khasi traddodiadol, ond fe fu eu cefnogaeth i'r eglwys yn y pentref rhyw 40 mlynedd yn ôl pan oedd y

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Dyddiadur Gogledd Ddwyrain India – rhan 3*
*(parhad o dudalen 2)*

Parch. Ddr. Robert Cunville yn cynorthwy'r eglwys yn ei chenhadaeth, yn allweddol i weld yr eglwys yn tyfu o 100 o aelodau bryd hynny i'r 2000 a geir yno heddiw. Daeth y fam frenhines at Dr. Cunville i eistedd gydag ef yn y pulpud er mwyn arwyddo'i chefnogaeth a diolch i'r Cristnogion a weithiai er lles y bobl.

Fe gafwyd cyfle i holi a fyddai'n Brenin yn hoffi dod ar ymweliad i Gymru, ac yn wir fe loywodd ei lygaid wrth ddweud y byddai'n ystyried y gwahoddiad!

### Holi Cwestiynau

Yn eu hymgais i geisio amgyffred beth oedd wedi digwydd yng Nghymru i'r eglwys oedd wedi anfon cenhadon atynt dros gyfnod o 130 o flynyddoedd, roedd y cwestiynau yn gallu bod yn daer ac yn ddwys. Yr un mwyaf cyffredin yr aem ati ymhlith y Synodau I'w ateb yn oedd, 'Pam y dirywiad?' Doedd dirywiad ddim yn rhan o'u profiad yno ac fe gaent hi'n anodd i feddwl amdano. Roedd holi hefyd am y dylanwadau ar ein pobl ifanc a pha genadaethau yr oedd yr eglwys yng Nghymru ynglŷn â nhw. Beth a feddyliem am safle'r ferch yn eu heglwys? Beth allen nhw ei wneud i'n cynorthwyo?

Wrth rannu stori o ddirywiad yng Nghymru fe ofalom rannu hefyd am y llecynnau golau a welir ymhlith ein pobl ifanc ar ein cyrsiau ac am y twf yng ngwaith y merched yn ddiweddar. Yr oedd gorfod wynebu'r ffeithiau hyn am ddirywiad yn ofid mawr iddynt i gyd yno, ac er eu bod wedi clywed sïon ac wedi derbyn adroddiadau o'r blaen am sefyllfa'r Eglwys Bresbyteraidd ac eglwysi eraill yng Nghymru - bron nad oedden nhw am gredu nes bod rhywun yn rhannu o'u blaenau.

Mae ein diolch yn fawr iddynt drwy'r eglwys yn y Gogledd Ddwyran am eu gweddïau drosom yn gyson yn eu cyfarfodydd ac ar eu haelwydydd am i'r Ysbryd Glân ddiwygio'n heglwys. Ond mae angen mawr am rannu gwybodaeth fel y gallant fod yn gweddïo'n benodol am waith ein heglwys yng Nghymru. Ni wyddom yr effaith yn iawn o gael eglwys o 1.6 miliwn o aelodau yn gweddïo drosom yma yng Nghymru.

Gwelsom lawer o waith yr eglwys yn brosiectau ac yn genadaethau a oedd yn mynd ati i ddangos calon yr Arglwydd dros lwythau a phobloedd y Gogledd Ddwyrain. Parhawn ninnau i gofio yn ein gweddïau amdanynt hwythau hefyd ynghanol eu heriau unigryw eu hunain gan obeithio y bydd y berthynas hardd yma sy'n parhau rhyngom yng Nghymru a thaleithiau Gogledd Ddwyrain yr India yn dal i ddwyn ffrwyth er gogoniant i'r Arglwydd, pen mawr yr eglwys i gyd.


*HP-D*

# *Dros Grist a thros Gymru / For Christ and for Wales: a collection of essays in honour of the life and ministry of John Griffiths (1875–1947)*, gol. Paul Beasley-Murray

Mae'r gyfrol hon yn adrodd hanes rhyfeddol gŵr ifanc o Rosllannerchrugog a adawodd ysgol yn ddeuddeg oed er mwyn cynnal ei deulu. Dechreuodd ei yrfa drwy werthu papurau newyddion cyn troi i weithio yng nglofeydd yr ardal. Treuliodd ddeng mlynedd yn gweithio o dan ddaear fel glöwr cyn ymadael â'r ffas i gael ei hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth ymhlith y Bedyddwyr. Wedi astudio ym Mangor symudodd i Rydaman, lle bu'n gweinidogaethu i eglwys o dros 500 o aelodau. Roedd yn ffigwr dylanwadol yn y dref ac yn y Cyngor Sir. Symudodd oddi yno i fod yn brifathro Coleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Estynnwyd cylch ei ddylanwad wrth iddo wasanaethu fel tiwtor ac yna fel prifathro'r coleg.

Ceir yn y gyfrol gyfuniad o hanes John Griffiths, atgofion teuluol gan wyrion iddo, yn ogystal ag asesiad o arwyddocâd bywyd a chyfraniad John Griffiths i'w genhedlaeth gan Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan.

Trafodir gan John Weaver, Cyn-brifathro Coleg y Bedyddwyr, Caerdydd, sut y mae hyfforddiant ar gyfer y weinidogaeth yng Nghymru wedi gorfod addasu i amgylchiadau newydd. Tystia Rob





James, sydd ar hyn o bryd yn Llywydd Gweithredol y Cynghrair Efengylaidd yng Nghymru ac sy'n gyn-fyfyriwr o'r coleg, iddo ddarganfod, drwy sgyrsiau ag arweinwyr eraill, fod gobaith gwirioneddol i eglwysi i'r dyfodol er bod y dirywiad presennol wedi brathu'n ddwfn.

Bydd y gyfrol yn naturiol o ddiddordeb i Fedyddwyr yng Nghymru. Yn wir, cymeradwyir y gyfrol i ni gan Rosa Hunt ac Ed Keenan, y ddau'n gyd-brifathrawon ar Goleg y Bedyddwyr, a cheir gair pellach gan Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb y Bedyddwyr. Ond awgryma'r golygydd fod y cwestiynau a godir gan yr ysgrifau'n ymestyn y tu hwnt i enwad y Bedyddwyr, yn wir y tu hwnt i Gymru.

Er enghraifft, yn ôl ymchwil ddiweddar, y grŵp o bobl sydd fwyaf tebygol o weddïo'n gyson yw pobl o dan 35 mlwydd oed. Ac eto, dyma'r grŵp demograffig sydd ar goll o'n heglwysi. Ystyrient eu hunain yn bobl 'ysbrydol' ond doedden nhw ddim yn eu hystyried eu hunain yn 'grefyddol'. Cyfyd hyn gwestiwn dwys. Sut fedrwn ni estyn allan at y 'llaweroedd' sy'n dyheu am Dduw, hyd yn oed os ydyw'n Dduw nad ydynt hyd yn hyn yn medru ei enwi?

Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n cynnwys dros 100 o dudalennau, gan y golygydd. Ei chost yw £5 (yn cynnwys pris postio). Os hoffech gael copi, anfonwch neges at y golygydd: paulbeasleymurray@gmail.com.

# *Meistri'r Awen*, gol. D. Ben Rees (Cyhoeddiadau Modern Cymreig, Lerpwl; clawr caled, 226tt; £15)




Ydy, mae'n bwysig rhannu cyfoeth un genhedlaeth hefo'r genhedlaeth sydd yn dilyn. Dyna bwrpas y gyfrol hon, yn ôl y golygydd a'r cyhoeddwr a'r cyfrannwr yn ei gyflwyniad. Heblaw rhoi sylw i'r cewri gwerinol hyn i'r genhedlaeth bresennol, y mae'n gymwynas â nghenedlaeth i trwy ein hatgoffa o gyfraniad amhrisiadwy'r cyfeillion hyn yn eu dydd

Ar ddechrau'r gyfrol mae Simon Brooks yn datgan mai athrylith y gyfrol hon yw ei dadansoddiad o gymdeithas nad yw'n bod bellach, y gymdeithas werinol. Cenhadon y werin, meddai, oedd Bedwyr Lewis Jones ac Iorwerth Cyfeiliog Peate, a thri oedd yn cynnal y gwerthoedd gwerinol hynny oedd John Evans, B. T. Hopkins ac Einion Evans. Haera fod Caradog Prichard yn ei glasur o nofel *Un Nos Ola Leuad* wedi darlunio anoddefgarwch y gymdeithas werinol Gymraeg.

Yn wahanol i'r pump arall, mae enw Caradog Prichard yn enw amlwg iawn ar draws y blynyddoedd gyda sawl cyflwyniad dramatig o'i nofel, *Un Nos Ola Leuad*, y nofel orau yn y Gymraeg, medd y gwybodusion. Bu cyflwyniad dramatig ohoni ar daith ac fe geir opera yn seiliedig arni gan Gareth Glyn. Fe ymddengys yn y Cwricwlwm Cenedlaethol o dro i dro. Ond mae'r awdur Dr D. Ben Rees wedi tynnu ein sylw yn haeddiannol at y gwaith aruthrol a wnaeth y newyddiadurwr athrylithgar Caradog Prichard fel bardd (ennill y Goron dair blynedd yn olynol gyda'i bryddestau, gydag un arall yn deilwng ond heb fod ar y testun), ac fel llenor (sawl cyfrol ddadlennol heblaw ei nofel). Hawdd yw cytuno mai llenor ydoedd yn bennaf. Roedd ei fam yn y seilam, streic fawr y Penrhyn (ei dad yn fradwr!), Diwygiad Evan Roberts, yr Eglwys Wladol, a thlodi yn allweddol i'w holl waith.

Portreadir Iorwerth Cyfeiliog Peate gan y Dr R. Alun Evans, y ddau wedi eu magu yn Llanbryn-mair. Cyflwynir i ni gymeriad mawr, hynod ei gyfraniad i Gymru, ond enigma os bu un erioed. Dyma genedlaetholwr, heddychwr, bardd, llenor, beirniad, hanesydd yr hen ffordd Gymreig o fyw yn ogystal ag arloeswr a sefydlodd yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan sydd yn gofgolofn iddo ef a'i weledigaeth. Disgrifir ef fel cymeriad hynaws, ond eto yr oedd yn gallu bod yn gymeriad cwbwl wahanol.

Bardd-amaethwr gwlad hunan-ddiwylliedig o Ledrod, Sir Aberteifi, a anfarwolwyd gan ei gywydd 'Rhos Helyg' oedd B. T. Hopkins. Eiddo Eirian Jones, Llangeitho, un o'r un fro, yw'r portread ohono. Dengys fod ei athrylith yn ehangach na'r cywydd gan fod ganddo ddwy gyfrol boblogaidd o'i waith wedi eu cyhoeddi. Gwerinwr ydoedd, yn ddyledus i Prosser Rhys a J. M. Edwards, ei athrawon barddol, a byddai'n seiadu hefo mawrion llên. Ystyrir ei feirniadaeth ar y delyneg yn yr Eisteddfod Genedlaethol (1938) yn glasur. Roedd yn flaenor ac yn bregethwr lleyg a oedd yn gyfarwydd â Kant, yn genedlaetholwr ac yn rhyddfrydol ei agwedd gan iddo wahodd Tom Nefyn i bregethu ac yntau wedi ei wahardd gan y Cyfundeb ar y pryd.

Portread yr ŵyr Aled Lewis Evans a gawn ni o John Evans (Siôn Ifan), yr 'Enaid mawr gwerinol', chwedl Mathonwy Hughes mewn englyn ar garreg ei fedd. Enillodd y Gadair ddwywaith yn y Genedlaethol. Cyfunai ddwyster â digrifwch. Bu dan ddylwanad 'Golau Egryn', un o ddigwyddiadau rhyfeddol Diwygiad Evan Roberts. Heblaw bod yn fardd y dwys a'r doniol, roedd yn brifathro ysgol, yn feuryn, darlledwr cyson, darlithydd, gwenynwr, englynwr, pregethwr cynorthwyol, beirniad, arweinydd eisteddfodau ac yn cael ei ystyried yn Frenin y Babell Lên ar sail ei hiwmor.

Cawn bortread o Einion Evans gan Norman C. Parry, y ddau hefo cefndir cyffelyb. Bu un yn löwr yn y Parlwr Du cyn mynd yn llyfrgellydd ac roedd y llall wedi ei fagu ym mro'r chwarel. Roedd Einion yn athro barddol i Norman. Y gwaith ddaeth ag Einion i sylw oedd ei awdl 'Yr Ynys' a hefyd ei gywydd i Ennis, ei ferch, a fu farw'n ifanc dan amgylchiadau trist. Y mae'r geiriau 'Dyn biau cadwyn bywyd' yn dweud y cyfan am ei alar yn y gweithiau hyn. Ysgrifennodd hunangofiant a chyhoeddodd sawl cyfrol o gerddi a blodeugerddi. Roedd hefyd yn flaenor, yn bregethwr lleyg, ac yn arweinydd aelwyd. Fel emynydd dyfynnir rhai o'i emynau ysgytwol. Roedd yn sosialydd naturiol ac yn ddychanwr deifiol, ac yn gymeriad cymhleth a chroendenau ar adegau. Canodd i gymeriadau Daniel Owen, ond bu un anffawd argraffu wrth gyfeirio at Thomas Bartley ac wrth ddyfynnu'r cywydd iddo. Yr hyn a geir yw 'twbi shwr' yn hytrach na'r 'tw bi shŵar' y mae'r odl yn y cywydd yn gofyn amdano.

Monwysyn oedd Bedwyr Lewis Jones er mai yn Wrecsam y ganed ef. Awdur y portread yw Patricia Williams, un o Wrecsam yn wreiddiol ac un a fu'n gyd-efrydydd ag ef. Cafodd yrfa ddisglair fel myfyriwr cyn cyrraedd pinacl ei yrfa fel Athro'r Adran Gymraeg ym Mangor. Sefydlodd gylchgrawn llenyddol, *Yr Arloeswr*, gydag R. Gerallt Jones pan nad oedd cylchgrawn o'i fath ar y pryd. Ychwanegodd fyd y ffilmiau at y celfyddydau traddodiadol. Roedd yn ddyn o flaen ei oes ac yn weithiwr called. Roedd ei astudiaethau llenyddol yn dangos gwybodaeth eang ynghyd â thrylwyredd ei ymchwil. Meddai ddawn i ddehongli cerddi; roedd hefyd yn dditectif geiriau a chyhoeddodd sawl cyfrol. Sefydlwyd Canolfan Bedwyr ym Mangor o barch i'w gyfraniad hynod.

Mae cynllun y clawr gan Siôn Wyn Morris yn denu'r llygad yn syth gyda gludwaith o luniau'r awduron yn ogystal â'r cyfranwyr. Ceir lluniau hefyd o fewn y gyfrol ei hun gan ychwanegu at ei gwerth. Ceir bywgraffiad o'r awduron a llyfryddiaeth fuddiol ar derfyn y gyfrol yn cynnwys rhestr o'u gwaith yn ogystal â rhestr o lyfrau yn trafod eu cyfraniad.

Am wybodaeth ddifyr am chwech o gewri gwahanol ond hynod werinol y mae ein dyled iddyn nhw yn fawr iawn, dyma'r gyfrol ddelfrydol i genhedlaeth hen a newydd.

*John Owen*
*Rhuthun*

# Cyn brif weinidog a Chapten ein hiachawdwriaeth

Wrth i mi ysgrifennu, mae'r cyn brif weinidog, Boris Johnson, wedi cael ei groesholi gan Bwyllgor Breintiau'r Senedd i geisio darganfod os oedd wedi camarwain y senedd yn fwriadol ynglŷn â dau ddigwyddiad (parti) yn ystod y cyfnod clo.

Mae nifer o'r werin yn credu ei fod yn euog o gelwydd a rhagrith wrth wadu iddo gamarwain y senedd (a'r cyhoedd) a chyfiawnhau ymuno mewn dau ddigwyddiad oedd i weld yn torri'r rheolau Covid yr oedd ef ei hun wedi eu gosod i bawb arall. Roedd gweddill y boblogaeth yn cael eu cyfyngu rhag cynnal dathliadau teuluol, cynulliadau angladd neu briodas, a hyd yn oed rhag eistedd gydag anwyliaid oedd yn wael ac yn marw.

Roedd Mr. Johnson yn ceisio pwysleisio bod un o'r digwyddiadau (ymadawiad staff) yn achlysur pan roedd hi'n 'hanfodol' i ddod yn nes at ei gilydd er mwyn tawelu meddwl staff oherwydd bod dau aelod blaengar wedi gadael dan amgylchiadau chwerw. Dyw canlyniad y gwrandawiad ddim wedi ei gyhoeddi eto.

Mor wahanol yw Tywysog ein tangnefedd a Chapten ein hiachawdwriaeth! Does dim unrhyw amheuaeth ohono Fe yn camarwain unrhyw un erioed, ac mae hynny'n amlwg iawn wrth feddwl am yr hyn a ddywedodd cyn dod at ddigwyddiadau'r Pasg. Dywedodd yn blaen beth fyddai'n digwydd iddo.

Yn Mathew 16.21, ar ôl i Pedr gyffesu taw Iesu oedd y Meseia, Mab Duw, mae'r Arglwydd yn dangos yn glir pa fath o Feseia ydoedd. Byddai'n mynd i Jerwsalem, yn dioddef dan law arweinwyr crefyddol Israel ac yn cael ei ladd cyn codi ar y trydydd dydd. Roedd yn Feseia dioddefus.

Cyn dod 'yng ngogoniant ei Dad gyda'i angylion' (Math.16.27) i farnu dynoliaeth ar ddiwedd amser, byddai'n Was dioddefus. (Eseia 52,53)

Cyn ymddangos yn ei deyrnas gydag urddas brenhinol (Math.16.28) yn ei atgyfodiad ac yn ei dywalltiad o'r Ysbryd Glân ar ddydd y Pentecost (c.f. Marc 9.1), byddai'n tywallt ei fywyd i farwolaeth.

Mae'n rhagfynegi ei farwolaeth y trydydd tro yn Mathew 20.17 wrth fynd i gyfeiriad Jerwsalem ar gyfer Pasg yr Iddewon am y tro olaf. Nawr mae'n ychwanegu rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn sydd o'i flaen. Yn ogystal â chael ei draddodi i arweinwyr crefyddol yr Iddewon, caiff ei drosglwyddo ganddynt i'r Cenhedloedd (y Rhufeiniaid) i'w watwar, ei fflangellu a'i groeshoelio, cyn cael ei gyfodi ar y trydydd dydd.



Llun: gan Andrew Parsons / No 10 Downing Street CC BY-NC-ND 2.0

Roedd yr Hen Destament wedi sôn am y Meseia fel Gwas Dioddefus a Brenin buddugol, ac mae Iesu ei hun yn dweud yr un peth – ac felly y bu.

Mor hyfryd yw cael Arweinydd oedd yn dweud y gwir am yr hyn fyddai'n digwydd iddo, ac wedyn yn llwyddo i gyflawni ei air.

Mor hyfryd hefyd yw gwybod nad oedd yn gofyn i'w ddilynwyr i wneud unrhyw beth nad oedd Ef ei hun wedi ei wneud gyntaf. Galwodd ar unrhyw un ddymunai ei ddilyn i ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes bob dydd er mwyn marw i'r hunan (Math.16.24).

Ond all neb ei wadu ei hun i'r un graddau â'r Un oedd ar ffurf Duw ac eto oedd yn fodlon ei wacáu ei hun o'i safle cydradd â Duw mewn gogoniant a breintiau nefol (nid ei dduwdod), a dod ar wedd ddynol. Yna roedd yn barod i'w ddarostwng ei hun i fod yn ufudd hyd at angau ar groes, oedd yn golygu bod dan felltith y nef ar bechod dyn. Gwnaeth hyn er mwyn achub pob un fyddai'n credu ynddo rhag y felltith a gwneud yn siwr ein bod yn croesi o gondemniad marwolaeth ysbrydol i fywyd tragwyddol.

Diolch am Frenin y gallwn ymddiried ein hunain yn llwyr ynddo; ymddiried yn ei air, ei aberth, ei atgyfodiad, ei holl waith fel Gwaredwr a Chapten ein hiachawdwriaeth.

*John Treharne*

# Miwsigathôn – cymuned a Choed-y -bryn

Efallai y bydd yr wybodaeth hon o ddiddordeb i ddarllenwyr *Cenn@d*. Mae'n enghraifft o'r gwaith cadarnhaol sydd yn mynd ymlaen yng Nghapel Coed-y-bryn fel canolbwynt y gymuned. Penderfynwyd cynnal Miwsigathôn yn y capel am ddwy awr a hanner brynhawn Sadwrn, 4 Mawrth, gyda'r bwriad o godi arian tuag at Apêl Daeargryn Twrci a Syria. Fe wnaeth 11 o bobl o'r gymuned chwarae offerynnau yn unigol yn ystod y cyfnod hwn. Y calondid mwyaf oedd fod llawer o unigolion o'r pentref wedi troi i mewn i wrando a chefnogi – nfer heb fod o fewn y capel o'r blaen. Cafwyd cefnogaeth hefyd gan aelodau'r eglwys leol. O ganlyniad llwyddwyd i godi £850 at yr apêl.

*Llinos Evans*



Ceri Davies yn paratoi i ganu yn y miwsigathôn!

# Rhodd Gostus Crist o Gymod

**Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)**

### Wythnos 6

### ‘Am berthynas wedi’i hailgymodi â chread Duw’.

### Ysgrythur Effesiaid 4: 22–8

### Myfyrdod

Gweddiwn yr wythnos hon gyda’n partneriaid Cymorth Cristnogol i gefnogi ymdrechion yr eglwysi i ailgymodi dynoliaeth â chread Duw, i edifarhau ac i wneud yn iawn am y gamdriniaeth a gyfrannodd i’r argyfwng hinsawdd sy’n bygwth ein dyfodol. Ar gyfer ei ymgynghoriad eglwysig 2022 gofynnodd Cymorth Cristnogol y cwestiwn canlynol: Sut allwn ni helpu ein gilydd i fod yn fwy unedig mewn gobaith gyda’n cymdogion byd-eang? Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd cafodd ei nodi mai un arwydd gobeithiol yn ystod blynyddoedd diweddar oedd y sylw mwy cyson a roddir i faterion yn ymwneud â chyfiawnder hinsawdd mewn cyd-destun eglwysig. Mae’n amlwg fod gennym ffordd bell i fynd o hyd os ydym am fod yn wirioneddol driw i’n hadduned i ddiogelu rhoddion y greadigaeth. Fodd bynnag, rydym wedi symud o sefyllfa lle’r oedd cyfiawnder hinsawdd yn un o nifer o eitemau ar ein rhestr faith o bryderon oedd yn ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol, i fod yn un lle caiff ei gydnabod fel mater sylfaenol, a hynny yng ngwaith heddwch a chymod.

Mae darlleniad heddiw o’r Ysgrythur yn dangos y cyfrifoldeb a’r potensial ar gyfer adnewyddiad yn ein perthynas â Duw, gyda’n gilydd a chyda’r cread cyfan. Yn gynyddol, mae eglwysi yn sgwrsio am y gwaith cymodi hwn yn nhermau colled a niwed. Maent yn gosod canlyniadau ein dewisiadau o’n blaenau – yn ein ffyrdd o fyw, yn ein diwylliant prynu, a’n hymgysylltiad â gwaith cyfiawnder



hinsawdd – yn enwedig ar gyfer y bobl dlotaf a mwyaf bregus, ac ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Mae seilio’r gwaith hwn mewn gweledigaeth o gymod, gan gadw’r gobaith o adfywio o’n blaenau, yn ein helpu i ddeall yr aberth y gelwir arnom i’w wneud fel buddsoddiad mewn gwell dyfodol i bawb. Mae’n galw arnom i geisio dod o hyd i ddatrysiadau fydd yn amddiffyn cymunedau bregus sy’n byw ymhell oddi wrthym yn ddaearyddol, yn ogystal â’r rhai sy’n byw yn agos atom ac sy’n dioddef tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o golli eu bywoliaeth o ganlyniad i’r newidiadau economaidd a diwylliannol sy’n mynd law yn llaw â gwaith cyfiawnder hinsawdd. Mae’r weledigaeth Gristnogol o’n dynoliaeth gyffredin yn gwrthod unrhyw ymgais i osod y grwpiau gwahanol hyn yn erbyn ei gilydd, gan gydnabod ein bod yn dibynnu ar ein gilydd a’n rhwymo ynghyd mewn cefnogaeth i’n gilydd.

Cyhoeddwyd papur gan Ymgynghorydd Diwinyddiaeth Cymorth Cristnogol, Bob Kikuyu, yn cynnig myfyrdodau diwinyddol ar thema Colled a Niwed. Mae’r papur yn dangos pa gyfraniad y gall eglwysi ei wneud i’r gwaith hwn, gan siarad yn gyhoeddus am ein gwerthoedd Cristnogol, a thanlinellu yn arbennig y gorchymyn moesol am weithredu dros gyfiawnder hinsawdd. Anogir eglwysi i ystyried eu rhan, wrth ymateb i fethiant perthnasau a ddangoswyd mewn cyfres o gynadleddau rhyngwladol ar lefel uchel. Methodd y rhain â sicrhau’r math o weithredu brys, radical ac adferol, sydd ei angen i gefnogi cymunedau tlotaf a mwyaf bregus y byd, er mwyn sicrhau eu dyfodol. Cawn ein hannog i ystyried sut, mewn cyfnod o fygythiad, gall eglwysi gynnig naratif amgen o obaith ac adferiad drwy osod y sgwrs yn nhermau cymodi.

### Cwestiynau

- Ydy cyfiawnder hinsawdd yn thema gyson pan fydd eglwysi yn dod at ei gilydd yn eich ardal?
- Sut allech chi helpu i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â thema colled a niwed yn eich eglwys leol neu mewn cyd-destun eciwmenaidd?
- Sut allech chi gefnogi actifyddion hinsawdd ifanc yn eich eglwys leol ac/neu yn eich cymuned?

### Camau Gweithredu

- Ystyriwch Neges ar y Cyd 2021 y Patriarch Eciwmenaidd Bartholomew, y Pab Ffransis ac Archesgob Caergaint. Pa bwyntiau gweithredu y gellid eu datblygu o’r neges hon ar gyfer eich eglwys leol neu eich rhwydweithiau eciwmenaidd?
- Ystyriwch ddefnyddio adnodd Cymorth Gristnogol i eglwys ar golled a niwed er mwyn cefnogi ymgysylltiad drwy weddi, codi ymwybyddiaeth ac eiriolaeth yn eich cyd-destun lleol.
- Ymchwiliwch a thrafod pa grwpiau yn eich ardal leol allai deimlo fwyaf bregus ar sail materion yn ymwneud â’r argyfwng hinsawdd. Sut allwch chi eu helpu nhw i deimlo bod eu llais yn cael ei glywed a’i gynnwys o fewn gwaith cyfiawnder hinsawdd?

### Gweddi

Dduw cariadus,  
Cydnabyddwn ein hangen am edifeirwch  
am gam-drin dy cread,  
am esgeuluso ein cyfrifoldeb  
i warchod y rhai sydd mewn perygl yn sgil dinistr hinsawdd.  
Ennyn yn ein calonnau awydd i gydsefyll  
a fydd yn ein tywys i adnewyddu ein perthynas  
â’n gilydd,  
â thithau,  
a chyda’r cread cyfan.  
Cadw o’n blaenau’r gobaith  
y gellid adfer pob peth  
yn dy ras  
os gwnawn ni gofleidio’r aberth  
a fynnir gan gyfiawnder.  
Amen.

S4C
*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Ebrill 2 – Sul y Blodau, am 7.30yh**
Yr wythnos yma byddwn yn nodi Sul y Blodau. Mae hi hefyd yn Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd, a bydd Nia yn cwrdd â Nath Trevett a’r gweinidog Casi Jones a’i mab Dafydd i ddysgu am eu profiad o fyw gyda’r cyflwr.

BBC radio cymru
*Caniadaeth y Cysegr*
**Ebrill 2il. 7:30am a 4:30pm**
R. Alun Evans fydd yn cyflwyno emynau ar y thema Sul y Blodau.
**Sul, 2 Ebrill, am 12:00yp**
Oedfa Radio Cymru, yng ngofal Gareth Evans-Jones, Bangor

# Ffydd a Diwylliant

## Ffiniau

Mae pob math o ffiniau anweledig ym myd y celfyddydau. Does byth fricsen na gwifren yn nodi'r ffin, weithiau mae yna reffyn tila neu linell ar lawr, ond yn amlach na pheidio does dim yno, ond mae'r ffin yn gadarn.

Fyddai neb yn mentro cyffwrdd â phaentiad mewn oriel, hyd yn oed pan mae'r paent yn drwch fel ar baentiadau Kyffin, a bron yn gofyn i chi eu profi nhw â chyffyrddiad bys yn ogystal â llygaid.

Fentrech chi byth fynd ar lwyfan yn ystod drama, ymuno yn y ddeialog, neu ateb cwestiwn rhethregol gan un o'r cymeriadau. Mae'r ffin yn anweledig ond bron yn gyfan gwbl gadarn.

A phan mae o yn digwydd, pan mae'r hud yn cael ei chwalu, mae'n cymryd dewrder neu anhap anghyffredin i gymryd y cam hwnnw i gamu dros y llinell at y darlun neu i darfu ar ddrama, mae'r hudoliaeth mor gryf. Prin ein bod ni'n ymwybodol o'r ffiniau hyn ond mae eu dylanwad nhw drosom ni yn gwbl hudol, nes bod rhywun yn eu chwalu nhw.

Mae yna ffiniau eraill nad ydyn ni'n eu gweld nhw nes eu bod nhw'n cael eu chwalu hefyd. Dyna chi olygyddion copi. Yr unig amser y byddwch chi'n ymwybodol o waith prawf ddarllenydd yw pan fyddan nhw'n methu yn eu gwaith. Fyddwch chi byth yn gorffen llyfr ac yn dweud, 'waw, roedd hwnna wedi ei ysgrifennu'n gywir'. Ond efallai y byddech chi'n cwyno os bydda fo'n llawn camgymeriadau.

Bethan Gwanas oedd y golygydd creadigol ar glasur Gareth F. Williams, *Awst yn Anogia*. Mae'n debyg bod y llawysgrif wreiddiol draean yn hirach na'r un gyhoeddwyd. Ond fe dorrodd Bethan y testun a gadael y stori yn gyflawn ac yn well nag oedd hi. Fyddai darllenydd ddim yn gwybod hynny, mae'n debyg nad ydy Bethan yn



Llun llinell Gonzalo Facello on Unsplash

cofio be dorrwyd, ond yn well byth doedd yr awdur ei hun ddim yn gweld y creithiau achos roedd y torri ar pwytho mor gelfydd.

Mae'r bobl yma, fel rhywun sy'n glanhau ffenestri'n berffaith, yn hanfodol os ydyn ni i weld y byd ar ei orau, ond os ydyn nhw'n cyflawni eu dyletswyddau'n iawn, fydd olion eu bysedd nhw ddim yn agos at y gwaith.

Yn ddiweddar, darllenais waith Victor Frankl, athronydd o Iddew, a ddioddefodd yng ngwersylloedd y Natsïaid. Yn un o'i lyfrau mae'n dyfynnu hen fyth Iddewig sy'n mynnu bod parhad y byd yn gwbl ddibynnol ar fodolaeth dim mwy na 36 o bobl gyfiawn. 36 o blith y biliynau sy'n byw ar unrhyw adeg. Lleiafrif anweledig o fychan. Ond yn fwy na hynny, mae'r 36 hynny yn **gorfod** bod yn anweledig. Unwaith y byddai un o'r rhai cyfiawn hyn yn cael eu hadnabod am yr hyn ydyn nhw mae'n nhw'n diflannu, neu'n marw ar unwaith. I fod yn effeithiol, mae'n rhaid i'w cyfiawnder nhw fod yn anweledig.

Mae hon yn her fawr i ni weithredu'n dawel, i barchu'r anweledig ac i beidio beirniadu'r rhai sy'n ymddangos fel nad ydyn nhw'n gwneud dim. Efallai eu bod nhw'n un o'r 36!

*Rocet Arwel Jones*

# Elvis Presley

A ydych yn hoffi caneuon Elvis Presley? Na, nid ei ganeuon mwyaf poblogaidd ond y rhai Cristnogol? A wyddoch iddo dderbyn 3 *Grammy Award* yn ystod ei yrfa a'r rheini i gyd am ganeuon Cristnogol?

Gelwir Elvis *The King of Rock and Roll*! Ond gwrthododd y teitl Brenin am iddo ddweud mai un Brenin sydd a hwnnw yw Iesu Grist! Ymddengys bod Cristnogaeth iddo yn gymaint o argyhoeddiad ag o arfer!

O bosibl bod gan Elvis wreiddiau Cymreig o ystyried dawn ei lais. Mae yna blwyf yn Sir Benfro o'r enw St. Elvis (Llaneilfyw) ac mae bryniau'r Preseli (Presley?) wrth law! Yn ôl Rhygyfarch Ailbe (neu Eilfyw) a fedyddiodd Dewi Sant.

Magwyd Elvis mewn tlodi yn nhref Tupelo yn nhalaith Mississippi yn Unol Daleithiau'r America yn unig blentyn ar ôl marwolaeth ei efaill yn faban. 'Roedd yn agos iawn at ei fam. Mynychodd eglwys Bentecostalaidd leol ac fe dyfodd yn sŵn alawon y *Blues*.

Recordiodd ei gân gyntaf (*That's All Right Mama*) ym 1954 ac fe ddaeth yn boblogaidd dros nos wrth i'w ganeuon cael eu darlledu ar y radio. Aeth o nerth i nerth gan berfformio mewn cyngherddau ar lwyfan ac actio mewn ffilmiau ar y sgrin fawr. Gellid ei ddisgrifio fel ffenomenon!

Llwyddodd Elvis i ganu amrywiaeth eang o ganeuon oedd at ddant bron pawb. Yn eu plith 'roedd baledi, *rock'n'roll* a chaneuon serch. Ond pwysig iawn iddo oedd caneuon *Gospel* oedd yn rhan o'i fagwraeth a ffydd Gristnogol.

Wrth wrando arno'n canu'r caneuon hyn clywir ei angerdd yn amlygu'i hun yn ystyrlon yn y geiriau a ganai. Nid diystyr oedd y geiriau iddo oherwydd credodd yr hyn a ganodd. Canodd o'r galon yn ogystal ag o'r pen.

O bosibl gellid beirniadu Elvis am ei ffaeleddau dynol ond ymagweddodd yn ostyngedig ynghanol ei fawredd a pharchodd pobl eraill. Rhannodd ei gyfoeth a meddai ar hiwmor iach. Nid bod hyn yn gwneud iawn am ei ffaeleddau oherwydd gwyddai bod arno angen Gwaredwr yn gymaint â'r un dyn arall.

Ymhlith y caneuon *Gospel* a ganodd oedd *Amazing Grace, Crying in the Chapel, He Touched Me, How Great Thou Art* a *Peace in the Valley*. Gwyddom oll am hanes yr emyn *Amazing Grace* sy'n adrodd stori tröedigaeth John Newton. Cyrhaeddodd *Crying in the Chapel* rif 1 yn y Siartiau Pop Prydeinig ym 1965. Cyfansoddwyd *He Touched Me* gan y cerddor Americanaidd Bill



Llun: Flickr by BudCat14/Ross at https://flickr.com/photos/39527581@N07/27861704525

Gaither yn sôn am gyffyrddiad yr Arglwydd ar enaid y Cristion. Cân fawreddog yw *How Great Thou Art* yn datgan mawredd Duw yng Nghrist. Ac ar raglen deledu Ed Sullivan ym 1957 cyflwynodd Elvis y gân *Peace in the Valley* i drigolion Hwngari a ffoesant eu gwlad rhag ymosodiad y Rwsiaid arnynt y flwyddyn gynt gan godi $6miliwn gan y cyhoedd i'w cynorthwyo.

Beth bynnag eich barn am Elvis tystiodd i'r Arglwydd mewn cân gydol ei yrfa ddisglair. Gwyddai y rhoddwyd iddo lais swynol a ddefnyddiodd i foli'r Arglwydd. Ac mae ei ganeuon ar gael o hyd i roi hwb a help i'r Cristion yn y byd.

*Peter Davies*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *'Rhyfeddod a bery'n ddiddarfod…'*

### Cyflwyniad

Yn ganolog i galendr yr eglwys, yn ganolbwynt i fywyd y Cristion, ceir croes. Ond nid croes dirmyg a dioddefaint, gwae ac ing, yn unig a wêl llygad ffydd. Yn hytrach, gwelwn ym mrad Jwdas, yng ngwadiad Pedr, yng nghondemniad yr arweinwyr crefyddol ac yng nghynllwyn Pilat a Herod, stori wahanol iawn yn cael ei hadrodd. Gwelwn drwy'r cyfan i gyd bod Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun, a bod ei farw aberthol, mewn rhyw ffordd ddirgel, yn orymdaith fuddugoliaethus dros bechod, dros angau a thros holl bwerau'r fall. (Colos 2:13-14)

### Darllen Salm 118:1,2, 19-29

### Emyn 238 Ymlaen, ymlaen

### Gweddi

Arglwydd Iesu, i'r hwn y mae pob glin yn plygu a phob tafod yn cyffesu dy fod yn Arglwydd, caniatâ i ninnau, gyda'th eglwys ar bob cyfandir sydd, ym mhob oes a fu neu a ddaw, ymuno heddiw yng ngorymdaith dy goncwest ac yng nghaneuon mawl i'r Tad. Drwy dy Ysbryd gogonedda dy hun drachefn yn ein plith. Amen

### Darllen Mathew 27:1-10 Pwy yw hwn?

Roedd rhai o'r pererinion wedi cyrraedd Jerwsalem yn gynnar ar gyfer Gŵyl y Pasg. Wedi iddynt orffwyso ar ddiwedd eu taith trodd eu golygon tuag at ddathliadau'r Pasg. Roedd y cyffro'n cynyddu.

Onid oedd y dathliad, heblaw am fod yn rhywbeth oedd wedi ei orchymyn, yn ddathliad o bwys mawr? Dyma'r dydd i gofio am aberthu'r oen yn yr Aifft a'r modd y gwaredwyd eu cyndadau a mamau rhag niwed pan baentiwyd gwaed oen o gwmpas ddrysau eu tai. Ar y noson honno, pan drawyd cyntaf-anedig yr Aifft, rhyddhawyd y genedl o afael Pharo. Ffoesant drwy'r Môr Coch drwy'r anialwch blin ar eu taith i 'wlad yr addewid.'

Er bod sawl canrif wedi pasio ers yr Exodus, er i ryfeloedd a phlâu fygwth y genedl, ac er i'r gaethglud ym Mabilon fygwth eu difetha, medrant ddathlu eu bod wedi goroesi pob bygythiad. Beth allai fod yn well na chael dathlu eu parhad, eu cenedligrwydd, eu crefydd unigryw, o flaen y Rhufeiniaid paganaidd oedd yn eu llywodraethu? A beth allai fod yn well na chael canu gyda'r dorf y Salmau a fynnai bod y Llywodraeth yn perthyn i'r Arglwydd ac nid i ryw rym gwleidyddol estron? Beth fedrai fod yn well na chael canu'r hen ganeuon a disgwyl yn hiraethus am gyflawniad addewidion yr Arglwydd?

Rhywle yn y gymysgfa o ddisgwyliad ffydd a breuddwydio gwleidyddol y dechreuodd y dyrfa ganu'r 'Salmau Halel' (Salm 113-118) a arferid eu canu yn ystod y gwyliau mawr. A rhwydd fyddai deall sut y cyplyswyd caneuon cyfarwydd am Fab Dafydd gyda'r mynegiant o ffydd a gaed fel uchafbwynt i Salm 118.

I'r rhai a oedd yn adnabod eu Hysgrythurau a'u hanes roedd arwyddocâd neilltuol i ddyfodiad Iesu o gyfeiriad Bethffage, un o faestrefi Jerwsalem. O'r dwyrain y teithiodd y Brenin Dafydd ei hun i ail-sefydlu ei orsedd ar ôl gwrthryfel ei fab Absalom. (2 Samuel 16:1-2) Ac er y medrai Iesu gerdded i mewn i'r ddinas ( ar ddwy droed yr oedd wedi cyrraedd cyrion y ddinas!) ac yntau'n 'Fab Dafydd' dewisodd farchogaeth, fel Dafydd, i'w ddinas a'i orseddfainc, ar gefn asyn.

Wrth i Iesu ddechrau ar ei daith deuai i gof y dorf yr hanes am orymdaith fuddugoliaethus Jwdas Maccabeus i'r ddinas bron i ddwy ganrif ynghynt. Bryd hynny croesawyd y cadfridog buddugoliaethus gan dorfeydd a daenodd balmwydd o'i flaen.

Roedd y dyrfa'n llawn hwyl, yn llawn hyder, yn llawn disgwyliad bod dydd y Meseia, Mab Dafydd gerllaw. A phan ddeuai caent fod yn genedl rydd a chai eu gelynion lyfu'r llwch gerbron y brenin hir ddisgwyliedig oedd yn waredwr o benodiad dwyfol.

Oedd, roedd Iesu yn deilwng o fawl y dyrfa ac o'r croeso a gafodd. Ond nid Meseia'r disgwyliad poblogaidd ydoedd, na'r gwaredwr gwleidyddol, na'r brenin a ddychmygasant, oedd yr hwn a farchogodd i Jerwsalem y bore hwnnw.

Mae'n wir i Iesu ddod fel cyflawniad i'w dyhead, 'Hosanna' (Achub ni). Ond wrth ddewis diffinio natur a diben ei ddyfodiad fel 'Brenin' i'w plith trwy blethu proffwydoliaethau Eseia (62:11) a Sechareia. (9:9-11) ymgnawdolodd Iesu frenhiniaeth amgen i'w dyheadau daearol. Do, daeth 'Mab Dafydd' i'w ddinas yn achubydd i'w bobl. Dyma air a haeddai ei gyhoeddi ym mhob cwr o'r byd. Ond nid trwy farchogaeth ar gefn march rhyfel yr arddangoswyd ei rwysg, na'i awdurdod breiniol. Daeth Iesu mewn gostyngeiddrwydd. Daeth Iesu gan dystio i'r byd bod caethiwed dyfnach na chaethiwed gormes gwleidyddol. Daeth i ryddhau'r rhai a ddarostyngwyd gan gaethiwed balchder ysbrydol.

Ym mhrosesiwn y Brenin ymgnawdolwyd yr addewid y cai'r rhai 'addfwyn' fod yn wynfydedig ac mai nhw a etifeddent y ddaear.' (Math 5:5) Wrth wahodd pobl flinderog a llwythog ato'i hun tystiodd Iesu mai un 'addfwyn' ydoedd, ac am hynny ef ei hun yn unig a fedrai roddi gorffwys i'w heneidiau. (11:29)

Yn wahanol i ymddygiad brenhinoedd a ymffrostient yn eu grym milwrol, yn groes i arferion ymerawdwyr creulon, yn gyfan gwbl groes i obeithion ei gyfoedion, daeth Iesu'n ostyngedig, yn isel, gan ymgnawdoli addewid y Tad am waredwr tirion ac am waredigaeth dosturiol.

Dyma Iesu, cyflawniad yr addewid a ddaeth trwy Eseia am 'was yr Arglwydd,' yr hwn y byddai'r Arglwydd yn ymhyfrydu ynddo. (Mathew 15 ) Dyma'r un y gorffwysai'r Ysbryd arno. Dyma Iesu yr hwn a ddaeth gan gyhoeddi cyfiawnder a barn i genhedloedd byd. Dyma'r un addfwyn a fyddai'n estyn ei dosturi a'i diriondeb at y rhai toredig. Dyma obaith holl genhedloedd y ddaear!

Er i rai ei gydnabod fel 'proffwyd' neu gyfeirio ato fel 'meistr' neu 'frenin' ni ddeallodd unrhyw un o blith ei ddisgyblion, nac o blith y dorf, mai trwy ddioddefaint y groes y deuai ei goncwest, ac y deuai i'w ogoniant a'i deyrnas dros bopeth a grëwyd hyd byth. (Philipiaid 2:5-11)

Nid yw Mathew am i ni ei ddarllenwyr wynebu'r Pasg oedd ar y gorwel heb i ninnau ofyn a cheisio ateb y cwestiwn, 'Pwy yw hwn?'

### Gweddi

Arglwydd pob grym, o frenin na all neb gystadlu â thi, rhyfeddwn dy weld yn nyfnder dy ddarostyngiad er ein mwyn. Yr ydym ninnau am ddiosg coron ein balchder i weld yr hwn y mae pob glin yn plygu iddo a phob tafod yn cyffesu ei fod yn Arglwydd er gogoniant Duw Dad. Amen

### Emyn 276: O'r nef y daeth

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru